

## Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru

Adroddiad gan Dr Ruth Hussey, Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Helen George drwy ffonio 02920 678907 neu anfon e-bost at [helen.george@food.gov.uk](mailto:helen.george@food.gov.uk)

### 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn gan Gadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru yn adrodd ar weithgarwch y Pwyllgor yng Nghymru ar gyfer y cyfnod **mis Tachwedd 2016 i fis Medi 2018**.

1.2 Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel corff cyngori i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Caiff ei gadeirio gan aelod y Bwrdd dros Gymru a'i rôl yw cynghori'r ASB ar faterion diogelwch a safonau bwyd, gyda phwyslais arbennig ar Gymru. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnig amrywiaeth eang o arbenigedd, profiad a gwybodaeth ymarferol i'r ASB. Caiff yr holl aelodau eu recriwtio trwy weithdrefnau Penodi Cyhoeddus agored ac fe'u penodir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

1.3 Rôl y Pwyllgor fel y'i diffinnir yn Neddf Safonau Bwyd 1999 yw "*Rhoi cyngor neu wybodaeth i'r Asiantaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau statudol mewn materion penodol neu sydd fel arall yn ymwneud â Chymru*". Bydd y Pwyllgor yn ystyried cynigion Bwrdd yr ASB ar gyfer gweithgareddau o safbwynt Cymru ac yn cynnig cyngor ar flaenoriaethau penodol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd Cymru.

1.4 Mae gwariant cyllideb y Pwyllgor ar gyfer 2017/18 ac amcangyfrifiad o wariant y gyllideb ar gyfer 2018/18 i'w weld yn Atodiad A. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd i'w gweld yn Atodiad B. Mae wyth aelod ar y Pwyllgor, gydag un ohonynt sydd hefyd yn aelod o Fwrdd yr ASB ac sydd â rôl Cadeirydd y Pwyllgor. Mae rhestr o aelodau'r Pwyllgor i'w gweld yn Atodiad C. Mae ystod eang o arbenigedd ymhlith aelodau'r Pwyllgor gyda chefnidiroedd mewn ffermio ac amaethyddiaeth, iechyd yr amgylchedd, iechyd y cyhoedd, diwydiant bwyd a ffermio, diwydiant pysgodfeydd a dyframaeth, geneteg a bioleg foleciwlaidd, a'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

### 2 Nodau strategol

2.1 Mae'r Pwyllgor yn gweithio mewn ffordd agored a thryloyw trwy:

- gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus;
- gwrandao ar safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru;
- cefnogi'r ASB mewn digwyddiadau cyhoeddus a chyfarfodydd rhanddeiliaid;
- cynllunio agenda sy'n cynnwys nodi pynciau sydd â buddiannau penodol i Gymru yn gynnar;
- llunio cyngor y mae'n gallu ei gyhoeddi yn annibynnol.

### 3 Trafodaeth

#### Adolygiad ôl-weithredol: Sesiynau Briffio a Chynllunio

3.1 Ym mis Tachwedd 2016, aeth y Bwrdd ati i ystyried papur (FSA 16/11/08) ar wella cyfraniad y Pwyllgorau Cyngori ar Fwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.<sup>1</sup> Roedd y papur hwn yn gwahodd Cadeirydd y Pwyllgorau Cyngori perthnasol i edrych o'r newydd ar weithgareddau ymgysylltu â defnyddwyr eu pwyllgorau i gynnig gwell dealltwriaeth o ddefnyddwyr ac i edrych yn rhagweithiol ar faterion sy'n benodol i'r gwledydd unigol mewn perthynas â blaenoriaethau strategol yr ASB, gyda chyfeiriad penodol yng Nghymru at effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ystyried y comisiwn hwn, mae'r Pwyllgor wedi defnyddio ei sesiynau briffio a chynllunio i ganolbwyntio ar ddeall agweddau defnyddwyr, cyfleoedd ymgysylltu a materion penodol yng Nghymru fel a ganlyn:

#### **Deall defnyddwyr**

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn datblygu ei wybodaeth mewn perthynas â deall defnyddwyr yng Nghymru. Yn ei sesiwn gynllunio ym mis Hydref 2017, cafodd y Pwyllgor friff gan Dîm Deall Defnyddwyr yr ASB a oedd yn edrych ar rai o brif ganlyniadau Arolwg 'Bwyd a Chi' yr ASB, sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, yn ogystal ag Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd yr ASB, sy'n cael ei gynnal dwywaith y flwyddyn. O ganlyniad, comisiynodd y Pwyllgor ddadansoddiad pellach o Arolwg Bwyd a Chi ac yn ei sesiwn gynllunio ym mis Ionawr 2018, trafodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r gwaith dadansoddi eilaidd ymhlith defnyddwyr a oedd yn edrych ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd a'i berthynas â diogelwch bwyd.<sup>2</sup> Roedd hyn yn nodi bod ymddygiad diogelwch bwyd yng Nghymru yn debyg o'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon ac eithrio bod pobl yng Nghymru yn llai tebygol o olchi ffrwythau a llysiau ac yn fwy tebygol o olchi cyw iâr amrwd. Canfu'r adroddiad broblemau yn ymwneud ag argaeledd bwyd, gyda 20% o bobl yng Nghymru yn poeni am redeg allan o fwyd; roedd 14% o bobl yng Nghymru wedi rhedeg allan o fwyd cyn iddynt allu fforddio prynu mwy. At hynny, nodwyd nifer o newidiadau mewn ymddygiadau siopa a bwyta, gydag 87% o'r bobl yng Nghymru heb lawer o fynediad at fwyd wedi newid eu hymddygiad bwyta neu siopa am resymau ariannol. Roedd y newidiadau a nodwyd amlaf yn ymwneud â phrynu bwyd rhatach. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn wedi'u rhannu â Phenaeithaid y Llywodraeth yng Nghymru sy'n edrych ar dlodi yn gyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn adolygu data ton nesaf arolwg 'Bwyd a Chi' a fydd yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

<sup>1</sup> <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/adroddiad-cadeirydd.pdf>

<sup>2</sup> <https://www.food.gov.uk/science/research-reports/ssresearch/foodandyou>

<https://www.food.gov.uk/sites/default/files/foodsecurityinwales.pdf#overlay-context=science/research-reports/ssresearch/foodandyou>

## Ymgysylltu

Mae aelodau'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn nifer o gyfleoedd ymgysylltu yn ystod 2017-18 fel a ganlyn:

- Ym mis Hydref 2017, cynhaliwyd diwrnod datblygu ar gyfer y Pwyllgor. Ymwelodd aelodau'r Pwyllgor â Baraka Foods, gweithredwr busnes bwyd sy'n arbenigo mewn cynhyrchu bwyd ar gyfer sefydliadau arlwyyo. Roedd y diwrnod yn hynod o addysgiadol ac roedd yn ddefnyddiol gweld agwedd wahanol ar y diwydiant cynhyrchu bwyd;
- Cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus gan gynnwys yr Eisteddfodau, Sioe Frenhinol Cymru a Sioe Sir Benfro. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i'r Pwyllgor wella ei wybodaeth am ddefnyddwyr trwy gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr a chynhyrchwyr ar sail eu gwybodaeth am ddiogelwch bwyd, a'u blaenoriaethau yn unol â hynny;
- Arsylwodd aelodau'r pwyllgor rai o grwpiau ffocws defnyddwyr yr ASB;
- Cynhaliodd y Pwyllgor ginio rhwydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth 2018. Roedd cynrychiolwyr o ddau awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Dadansoddwyr Cyhoeddus a'r Ganolfan Technoleg Bwyd yng Ngholeg Menai yn bresennol ac roedd yr achlysur yn gyfle i gynnal trafodaethau defnyddiol ar ystod o faterion sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## Materion penodol i Gymru

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Ar gais Cadeirydd yr ASB, cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei threfnu fel papur Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Wrth baratoi ar gyfer hyn, cafodd y Pwyllgor sesiwn frifio gan y weithrediaeth fel rhan o'i gyfarfod cynllunio ym mis Ionawr 2017 ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i fapio gweithgareddau'r ASB yng Nghymru yn erbyn nodau ac egwyddorion y ddeddfwriaeth. Ymhellach, cafodd y Pwyllgor ei frifio ar waith Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Soniodd y Pwyllgor i'r Bwrdd y camau sydd wedi'u cymryd gan Lywodraeth Cymru, trwy gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nododd y Pwyllgor y dull cadarnhaol sydd wedi'i fabwysiadu hyd yn hyn, i alinio a mapio rhai o weithgareddau allweddol yr ASB i nodau ac egwyddorion y Ddeddf.<sup>3</sup>Roedd yn cydnabod pa mor bwysig yw gallu dangos sut mae'r ASB yn cyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol sydd wedi'u gosod at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Lles<sup>4</sup>. Er nad yw'r

---

<sup>3</sup> <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

<sup>4</sup> <https://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf>

Cyfarfod Bwrdd – 19 Medi 2018

---

ASB yn gorff sydd wedi'i enwi yn y Ddeddf, cytunodd y Bwrdd i gyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru i greu dyfodol diogel a chynaliadwy i Gymru a chefnogi dull sy'n llywio busnes yr ASB i wneud cyfraniad mesuradwy at ofynion y Ddeddf. Roedd y papurau Bwrdd diweddar a oedd yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno rheolaethau swyddogol ar Laeth Yfed Amrwd yn y dyfodol yn cyfeirio'n benodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Yn ei sesiwn gynllunio ym mis Ionawr 2018, cyfarfu'r pwyllgor â'r Cyfarwyddwr arweiniol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar faterion polisi bwyd allweddol yn Llywodraeth Cymru. Roedd hwn yn ddiweddariad cynhwysfawr gan gynnwys sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar bolisi a chynllunio; y gweithlu ac agweddau economaidd y sector bwyd; gwastraff bwyd a phecynnu; iechyd anifeiliaid; paratoi ar gyfer ymadael â'r UE; a materion ffermio yn y dyfodol.
- Mae dau aelod o'r Pwyllgor yn eistedd ar Fwrdd Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru ac maent wedi rhannu'r newyddion diweddaraf ar y Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod.
- Cafodd y Pwyllgor Cynghori ddiweddariad ar waith ASB Cymru ar Ymadael â'r UE, yn arbennig o ran deall bwyd wedi'i fewnforio a'r her y mae hyn yn ei pheri i Gymru. Cafwyd briff ar drefniadau lechyd Porthladd presennol.

3.2 Mae'r Pwyllgor Cynghori wedi cael diweddariad ar raglen Rheoleiddio Ein Dyfodol. Mae wedi trafod y rhaglen sawl gwaith, yn gyntaf ym mis Mawrth 2017, unwaith eto ym mis Rhagfyr 2017 ac eto ym mis Ionawr 2018. Mae'r Pwyllgor wedi croesawu sesiynau briffio i'w hysbysu am gyfeiriad y rhaglen sydd wedi cael ei herio gan rai rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

3.3 Ar wahanol gyfnodau yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Cynghori wedi cyfrannu at yr adolygiad, a gomisiynwyd gan Gadeirydd Bwrdd yr ASB, i edrych ar y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ac i ystyried sut y gellid gwella a chryfhau cyfraniad y Pwyllgorau hyn. Croesawodd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru'r cyfle i gyfrannu at yr adolygiad a'r argymhellion sy'n deillio ohono. Mae'r Pwyllgor yn sicr y gall barhau i gynnig cyngor effeithiol wedi'i lywio'n gadarn i'r Bwrdd, a'i fod yn awyddus i weithio o fewn fformat newydd a fydd yn galluogi cyfraniad mwy ystyrlon wrth ddatblygu polisi yn y camau cynharaf.

#### Adolygiad ôl-weithredol: Cyngor i'r Bwrdd – mis Tachwedd 2016 hyd fis Medi 2018

3.6 Ers ymweliad diwethaf y Bwrdd â Chaerdydd ym mis Tachwedd 2016, mae'r Pwyllgor Cynghori wedi ystyried, a chyflwyno sylwadau, ar dros 28 o bapurau. Cynhaliwyd pob un o'r trafodaethau hyn mewn sesiwn agored. Mae rhestr gyflawn o bynciau sydd wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor, ar faterion sy'n berthnasol i gylch gorchwyl yr ASB yng Nghymru, ar gael yn Atodiad D. Sicrhaodd y sesiynau briffio a

**Cyfarfod Bwrdd – 19 Medi 2018**

---

chynllunio, a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, fod y Pwyllgor yn gallu rhoi cyngor gwybodus i'r Bwrdd.

**4. Edrych tua'r dyfodol**

4.1 Bydd agendâu cyfarfodydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru yn parhau i adlewyrchu materion sy'n cael eu trafod gan y Bwrdd gan roi sylw i unrhyw feysydd posibl a allai fod yn arbennig o berthnasol i Gymru. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor, a'r aelod Bwrdd dros Gymru, yn parhau i adrodd am drafodaethau'r Pwyllgor ac i gynrychioli safbwyntiau'r Pwyllgor Cyngori yn ystod trafodaethau'r Bwrdd. Yn dilyn yr adolygiad o Bwyllgorau Cyngori, mae Pwyllgor Cyngori Cymru yn edrych ymlaen at ailwampio'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor ac yn edrych ymlaen at weithredu'r argymhellion. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weithio mewn fformat newydd a fydd yn galluogi cyfraniad mwy ystyrlon i ddatblygu polisi yn gynnar.

4.2 Fel rhan o'r adolygiad, mae disgwyl i'r Pwyllgor ddatblygu a chytuno ar raglen waith ar gyfer y dyfodol i sicrhau ei fod yn ystyried materion sy'n berthnasol i Gymru. Dyma rai meysydd y gallai'r Pwyllgor eu hystyried dros y flwyddyn i ddod:

- goblygiadau diwygio llywodraeth leol yng Nghymru a'r hyn y mae'n ei olygu o ran rheoleiddio bwyd;
- materion sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE sy'n benodol i Gymru;
- ystyried unrhyw faterion defnyddwyr sy'n benodol i Gymru sy'n deillio o ganlyniadau Ton 5 o arolwg Bwyd a Chi yr ASB;
- gweithgareddau rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i sicrhau ein bod ni mewn cysylltiad o ran gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo gyda Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod olynol 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2019.
- adroddiadau perthnasol ar y system fwyd yng Nghymru;
- materion diwydiant bwyd sy'n benodol i Gymru;
- diweddariad ar faterion iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd;
- yn ystod y flwyddyn, bydd y pwyllgor yn cynnal un o'i gyfarfodydd y tu allan i Gaerdydd ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol bryd hynny.

**5. Casgliad**

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn a chynnig sylwadau ar y rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol.

Atodiad A

Cyllid

	gwariant £ (miloedd)	
	2017/18	2018/19 (rhagamcanol)
Tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor	30.4	33.9
Costau cynadledda – yn cynnwys: - costau hysbysebu'r cyfarfod - costau cynhadledd/digwyddiad - costau TG y cyfarfod (technegydd sain a chostau llogi offer)	2.9	3.0
Costau teithio a chynhaliaeth	Wedi'u cynnwys yn nhâl cydnabyddiaeth yr aelodau	
Costau prosesu penodiadau'r Pwyllgor	0	10
Cyfanswm y costau	33.3	46.9

**Atodiad B**

**Cyfarfodydd**

**2017**

- 19 Ionawr (sesiwn gynllunio)
- 9 Mawrth
- 15 Mehefin
- 14 Medi
- 12 Hydref (sesiwn gynllunio)
- 30 Tachwedd

**2018**

- 18 Ionawr (sesiwn gynllunio)
- 8 Mawrth
- 14 Mehefin
- 13 Medi
- 11 Hydref (sesiwn gynllunio)
- 19 Tachwedd



## Atodiad C

Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

1. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, penodwyd dau aelod newydd i'r Pwyllgor (James Wilson ac Alan Gardner) ac rydym ni'n disgwyl am benderfyniad y Gweinidog ar ddau benodiad pellach.

2. Yn yr un amserlen, mae'r Pwyllgor wedi colli tri aelod. Roedd Dr Hugh Jones, Mrs Sue Jones a Mr Derek Morgan oll yn gyfranwyr hynod effeithiol i drafodaethau, yn aelodau gwerthfawr ac yn uchel eu parch ymhlith eu cyd-aelodau, a hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad i sicrhau effeithiolrwydd y Pwyllgor wrth lywio polisi'r ASB. Dyma aelodau presennol y Pwyllgor:

- Dr Ruth Hussey – Cadeirydd y Pwyllgor ac aelod y Bwrdd dros Gymru (tymor penodi cyntaf yn dod i ben Gorffennaf 2019)
- Mr Ronnie Alexander – (ail gyfnod penodi yn dod i ben 30 Mehefin 2020)
- Dr Norma Barry – (ail gyfnod penodi yn dod i ben 30 Mehefin 2020)
- Mr David Peace – (ail gyfnod penodi yn dod i ben 30 Mehefin 2020)
- Mr James Wilson – (tymor penodi cyntaf yn dod i ben 31 Awst 2020)
- Mr Alan Gardner – (tymor penodi cyntaf yn dod i ben 31 Awst 2020)
- Aelod i'w benodi
- Aelod i'w benodi

3. Mae bywgraffiad o bob aelod ar gael ar wefan yr ASB:

<https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/pwyllgor-cynghori-ar-fwyd-cymru>

**Atodiad D**

**Adolygiad ôl-weithredol o eitemau a drafodwyd gan Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru mewn sesiynau agored – mis Tachwedd 2016 hyd fis Medi 2018**

<b>Cyfarfod Agored</b>	<b>Eitemau ar yr agenda</b>
17 Tachwedd 2016	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwyddoniaeth yr ASB</li> <li>• Cadw Golwg ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid</li> <li>• Sicrhau Mesurau Rheoli Cymesur ar gyfer Bwydydd sy'n Peri Risg</li> <li>• Adolygiad o'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd</li> <li>• Gwella Cyfraniad y Pwyllgor Cynghori ar Fwyd i Fewnwelediad a Phrosesau Llundio Penderfyniadau yr ASB</li> </ul>
9 Mawrth 2017	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheoleiddio Ein Dyfodol</li> <li>• Prosiect Stow Cyfnod 2 – Model Ariannu Cynaliadwy</li> <li>• Rhaglen Alergeddau ac Anoddefiadau Bwyd</li> </ul>
15 Mehefin 2017	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Halogion Cemegol</li> <li>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</li> <li>• Datblygu ein Dull o Nodi Peryglon a Phroblemau ar draws y System Fwyd</li> </ul>
14 Medi 2017	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)</li> <li>• Lles Anifeiliaida</li> </ul>
30 Tachwedd 2017	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheoleiddio Ein Dyfodol – yr ASB fel Rheoleiddiwr Cynorthwyol o dan Gynllun Prif Awdurdod</li> <li>• Rheoleiddio Ein Dyfodol – Datblygu'r Fframwaith Sicrwydd ar gyfer y Model Gweithredu Targed</li> </ul>

## Cyfarfod Bwrdd – 19 Medi 2018

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad ar Gadw Gwyliaidwriaeth Strategol</li> <li>• Deall Pobl: Gwyddor Gymdeithasol yr ASB</li> <li>• Diweddariad ar Weithgarwch yr ASB mewn perthynas ag Ymwrthedd Gwrthficrobaidd</li> <li>• Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd</li> </ul>
8 Mawrth 2018	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad ar Wyddoniaeth</li> <li>• Rhaglen Llaeth Yfed Amrwd</li> </ul>
14 Mehefin 2018	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)</li> <li>• Achos Busnes Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd</li> <li>• Llaeth Yfed Amrwd</li> <li>• Adolygiad o Ffatrioedd Torri a Storfeydd Oer</li> <li>• Rheoleiddio Ein Dyfodol</li> <li>• Strategaeth Ryngwladol</li> <li>• Adroddiad yr Arolwg o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd</li> </ul>